PROTOCOL ARFER GORAU TPC 1B

RHESTR O APELAU ARDRETHU ANNOMESTIG

Cyflwyniad

1. Mae Rheoliadau Annomestig (Newid i Restrau ac Apelau) (Cymru) 2005 (OS 2005/758) yn nodi'r weithdrefn a'r amgylchiadau pan ganiateir cynigion gael eu gwneud.

2. Mae'r rheoliadau yn darparu y gall y TP wrando a phenderfynu ar yr apelau annomestig canlynol:

- Cynigion Annilys (Rheol 8)
- Anghytundebau ynghylch newid arfaethedig (Rheol 13)
- Rhybudd Cwblhau (Paragraff 4, Atodlen 4A DGLL 1988)
- Cosbau (Paragraff 5A, Atodlen 9 DGLL 1988)

3. Rheol 13 - os yw'r cynigiad yn parhau i fod heb ei gytuno, bydd yn cael ei drosglwyddo o fewn 3 mis gan y Swyddog Prisio (SP) i'r Tribiwnlys Prisio (TP)

4. Rheol 8 - os yw'r cais wedi cael ei bennu fel annilys gan y Swyddog Prisio ac yn parhau i fod heb ei gytuno, bydd yn cael ei drosglwyddo yn awtomatig ar ôl 4 wythnos gan y SP i'r TP.

5. Bydd mathau eraill o gynigion annomestig sydd heb eu cytuno yn cael eu trosglwyddo hefyd gan y SP i'r TP, yr eithriad yw y bydd Rhybudd Cwblhau ac apelau Hysbysiad Cosb yn cael eu gwneud yn uniongyrchol i'r Tribiwnlys o fewn 28 diwrnod o dderbyn yr hysbysiad perthnasol.

Rhestru Apelau wedi'i Rhaglennu

6. Bydd yr holl apelau sydd wedi cael eu gosod mewn rhaglen gan y Swyddog Prisio, a heb eu cytuno erbyn y dyddiad targed, fel rheol yn cael eu rhestru (fel y manylir ym mhwynt 9) oni bai bod y TP yn penderfynu y dylai'r mater gael ei ddelio ag ef y tu allan i raglen yn unol â phwynt 11.

7. Lle bo dau neu fwy o apelau a wnaed mewn perthynas â'r un eiddo, byddant yn cael eu trin yn y drefn y mae'r newidiadau wedi dod i rym.

8. Lle mae apelau wedi'u gwneud o dan Restrau Prisio Ardrethu Annomestig a Threth Cyngor mewn perthynas â'r un eiddo, bydd yr apelau yn cael eu trin yn y fath drefn sydd orau er mwyn sicrhau buddiannau cyfiawnder.

9. Mae'n fwriad gan y TP, lle bynnag y bo'n bosibl, i drefnu gwrandawiad cyntaf apêl o fewn 6 - 8 wythnos o'r dyddiad targed oni bai ei fod wedi cael ei benderfynu y dylai'r apêl fynd ymlaen i ddechrau i adolygiad cyn y gwrandawiad (gweler y protocol ar arfer gorau TPC 1C)

10. Mae Rheoliadau yn ymofyn fod y partïon yn derbyn isafswm o 28 diwrnod o rybudd o ddyddiad, amser a lleoliad y gwrandawiad. Bydd y TP ymgeisio, lle bynnag y bo'n bosibl, i roi rhybudd o leiaf chwe wythnos o'r gwrandawiad i'r holl bartïon.

Apêl (au) i gael eu rhestru y tu allan i Raglen

11. Lle mae'r TP wedi bod yn ymwybodol, neu wedi derbyn cais gan barti bod yr apêl angen ei restru y tu allan i'r rhaglen, e.e. lle y mae'r apelydd yn dioddef caledi, bydd y TP yn ystyried pob cais ac yn rhoi gwybod i'r partïon yn unol â hynny.

Rhestru apelau Annilys, Hysbysiad Cosb, Rhybudd Cwblhau ac unrhyw apelau eraill nad ydynt wedi eu rhaglennu gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio

12. Bydd y TP yn ymgeisio, lle bynnag y bo'n bosibl i restr gwrandawiad cyntaf hysbysiad cwblhau ac apêl hysbysiad cosb o fewn 3 mis o'i derbyn.

13. Bydd y TP yn ymgeisio, lle bynnag y bo'n bosibl i restru gwrandawiad cyntaf o unrhyw fath arall o apelau ardrethu annomestig sydd heb ei rhaglennu o fewn 6 mis o'u derbyn.

14. Mae Rheoliadau yn ymofyn bod partïon yn derbyn isafswm o 28 diwrnod o rybudd o'r dyddiad, amser a lleoliad y gwrandawiad. Bydd y TP yn ymgeisio, lle bynnag y bo'n bosibl, i roi o leiaf chwe wythnos o rybudd o'r gwrandawiad i'r holl bartïon.